"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1887. [RHIF 69.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Ymprvd	97
Mai	100
I'r Noson	100
Cynnildeb	101
Cwrdd y Pasc	103
Post-card Symposium	108
Nodynau Gwasgarog	112
Cosfa i'r Glowr Myglys yn Nhy Dduw	118
Manion a Hanesion	119
Marwgofion	120

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1887. [RHIF 69.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

YMPRYD.

YN y dyddiau hyn, y mae Gwyl y Grawys yn cael ei chadw yn yr Eglwys Babaidd, ac yn Eglwys Loegr. Am ddeugain awr y byddai yr wyl yn cael ei chadw ar y dechreu, gan gyfeirio at y deugain awr rhwng y Croeshoeliad a'r Adgyfodiad; ar ol hyn, cafodd ei gwneyd yn ddau ddiwrnod, yna amryw ddiwrnodau, yna pymtheg diwrnod, yna tair wythnos, yna chwech neu saith wythnos. Mae'r Grawys, yn yr Eglwys Babaidd, yn ympryd; mewn eglwysi ereill, gosodir heibio ryw bleserau neillduol.

Y mae ymprydio yn yr Ysgrythyrau yn golygu pob math o hunan-ymwadiad; ac y mae yna lawer math o hunan-ymwadiad. Y mae yna un hunan-ymwadiad ag sydd ynddo ei hunan yn cael ei ystyried yn rhinweddol, ac yn gymmeradwy gan Dduw. Credir pa fwyaf o boen fyddo dyn yn ei osod arno ei hun, mai goreu i gyd y bydd i Dduw gael ei foddloni. Darllenir genym fod offeiriaid Baal "yn tori eu hunain â chyllyll" pan yn galw ar eu Duw. Yr oedd Brenin y Moabiaid yn aberthu ei gyntaf-anedig i foddio Duw. Mewn gwledydd Cristionogol, y mae'r un syniad wedi bodoli y byddai i Dduw gael ei foddio drwy fod dyn yn poeni ei hunan. Y mae ymattal oddiwrth fwydydd wedi bod yn un ffordd ag sydd wedi cael ei harfer yn aml fel hunan-ymwadiad, ag sydd yn cael ei hystyried yn rhoddi boddlonrwydd i Dduw. Mae'r Pharisëad yn y ddammeg yn coffa gerbron Duw ei fod yn ymprydio ddwywaith yn yr wythnos. Mae ymprydio, yn yr Hen Destament, yn cael ei alw "cystuddio ei enaid ei hun."

Y mae'n hynod, gan hyny, fod y proffwydi yn condemnio pob ympryd o'r fath. Dyweda'r Arglwydd, drwy Esaiah, "Ai dyma'r ympryd a ddewisais? dydd i ddyn i gystuddio ei enaid? Ai crymu ei ben fel brwynen ydyw, a thanu sachlian a lludw dano? Ai hyn a elwir ym-

pryd, ac yn ddiwrnod cymmeradwy gan yr Arglwydd? Onid dyma'r ympryd a ddewisais? dattod rhwymau anwiredd, tynu ymaith feichiau trymion, a gollwng y rhai gorthrymedig yn rhyddion, a thori o honoch bob iau? Onid tori dy fara i'r newynog, a dwyn o honot y crwydriaid i dŷ? a phan welych y noeth ei ddilladu; ac nad ymguddiech oddiwrth dy gnawd dy hun?" Cafodd y geiriau ardderchog yna eu llefaru ganrifoedd lawer cyn Crist, yn yr un ysbryd ag y darfu i'r Iesu, ar ol hyn, gyhoeddi y dylai gwir ympryd ddangos ei hunan, nid mewn prudd-der, ond mewn llawenydd. Er fod ympryd yn arferiad Iuddewig, nid oedd dysgyblion yr Iesu yn ymprydio.

Gellir gofyn paham, ynte, y gwnaeth Iesu ymprydio ddeugain diwrnod yn yr anialwch? Y mae hyn yn ein dwyn i ystyried math arall o ympryd—o hunan-ymwadiad. Y mae y math cyntaf, yr hwn sydd yn gosod allan y gall Duw gael ei heddychu neu ei foddloni trwy fod dyn yn poeni ei hunan; mae'n eglur mai nid dyma olwg yr Iesu, ac felly, yr ydym yn ei gosod o'r neilldu yn hollol.

Y mae yn aml yn angenrheidiol i ni wrthod i ni ein hunain bleserau cyffredin bywyd, nid am eu bod yn *wrong*, ond am eu bod yn ymyraeth â dyledswyddau mwy pwysig. Y mae gyda ni i ddewis rhwng chwareu a gweithio. Carem fyned oddicartref i blesera; ond y mae gyda ni waith gartref. Carem ddarllen llyfrau dyfyr; ond y mae galwad arnom i fyfyrio llyfrau ereill. Yr ydym yn ymwadu â'r pleser is er mwyn y daioni uwch. Yn ein gwaith yn gwneyd hyn, yr ydym yn dysgyblu ein hunain, yn ymwadu â ni ein hunain. Hunan-ymwadiad er mwyn cyflawnu dyledswydd uwch.

Yr ydym hefyd yn gorfod ymwadu, nid yn unig â phleserau, ond hefyd â dyledswyddau, er mwyn iechyd corff a meddwl. Mae'r crefftwr yn gwybod fod yn rhaid iddo, cyn dechreu ar ei waith, i edrych fod ei offer mewn trefn. Y mae'n rhaid i ddyn ymwadu ag ef ei hun, er mwyn gofalu am ei iechyd. Os ydym am wneyd unrhyw beth yn dda, y mae'n rhaid i ni ofalu am danom ein hunain.

Y mae hunan-ymwadiad yn angenrheidiol fel parotoad i waith. Pan yr ydym wedi penderfynu ymgymmeryd â rhyw waith pwysig mewn bywyd, gall y bydd arnom eisieu unigedd, gweddi, a myfyrdod, i'n cymhwyso ar gyfer y gwaith hwnw.

Ar ei daith unig i'r Dwyrain y cafodd Jacob allan fod Duw yn bresenol yn yr anialwch, ac ar ben y mynydd, yn ogystal ag yn addoliad cyhoeddus y llwyth y perthynai iddo, a dywedodd, "Mor ofnadwy yw y lle hwn! Nid oes yma onid tŷ i Dduw, a dyma borth y nefoedd." Ac ar ben y mynydd y cymmerodd ef Jehofah i fod yn Dduw iddo. Cyn dechreu ar ei weinidogaeth, aeth Iesu i'r diffaethwch, ac a ymprydiodd ddeugain niwrnod a deugain nos. Efallai ei fod ar yr adeg hono yn edrych ar anhawsderau ei waith; ei fod yn gweled, ac yn deall y profedigaethau a'r treialon oedd ganddo i'w cyfarfod. Parotodd ei hunan yn yr oriau bythgofiadwy hyny, pan oedd ef wrtho ei hun gyda'i Dduw, i wynebu y profedigaethau ofnadwy fyddent yn ymosod arno pan yn cyflawnu ei genadwri. Cafodd ei demtio, fel ninau, etto heb bechod. Pan yr ydym ni yn barod i rwgnach, am nad yw

bywyd yn dwyn i ni yr hyn ydym yn ystyried yn angenrheidiol; pan yn cael ein temtio i amheu y Cariad Dwyfol, o herwydd fod pethau croes yn d'od i gyfarfod â ni, o herwydd nad yw ein gwaith yn llwyddo fel ag y dymunem—cofiwn dreialon Iesu. Ni roddodd bywyd i'r un rhyfeddol hwnw ddim ond camddealldwriaeth, camddarluniad, a gorchfygiad ymddangosiadol. Nid oedd neb ond Duw yn deall ei amcan. Yr oedd y Phariseaid yn ei farnu. Dywedai rhai ei fod allan o'i bwyll. Ni chredodd y llywiawdwyr ynddo. Gadawyd ef gan ei gyfeillion. Yr oedd ei frodyr yn amheu ei hawliau. Darfu i'r dyrfa, i'r rhai yr oedd efe wedi bod yn dysgu ei wirionedd Dwyfol, i'r rhai yr oedd efe wedi rhoddi ei gydymdeimlad nefol, ddewis Barabbas o'i flaen. Ond yr oedd Iesu yn barod i bob peth a allai ddygwydd iddo; yr oedd efe wedi parotoi ei hunan yn yr anialwch i gyfarfod â phob treial. Ac yn yr awr dywyllaf, pan oedd angeu yn ymyl, a phan oedd y nos wedi dyfod, yn yr hon ni ddichon neb weithio, yr oedd yn gallu gweled fod ei fywyd wedi bod yn ogoniant i Dduw, a'i fod wedi gorphen y gwaith a roddwyd iddo i'w wneuthur.

Yr hunan-ymwadiad uwchaf yw hunan-ymwadiad yr Iesu—hunan-ymwadiad er mwyn ereill. Yr ympryd ag sydd yn cael ei ddewis gan Dduw; nid cadw oddiwrth fwyd neu bleser am ychydig ddiwrnodau neu wythnosau, ac nid ymneilldu oddiwrth y byd, gan arfer geiriau pruddaidd a golwg drist. "Pan ymprydioch, na fyddwch fel y rhagrithwyr, yn wyneb-drist: canys anffurfio eu hwynebau y maent, fel yr ymddangosont i ddynion eu bod yn ymprydio. Eithr pan ymprydiech di, eneinia dy ben, a golch dy wyneb." Ymddangosai yn hytrach fel un yn myned i wledd, ac nid i ympryd. Gall dynion dy alw yn gyfaill publicanod a phechaduriaid. Ond bydd y gwir hunan-ymwadiad hwn yn adnabyddus i'th Dad, yr hwn sydd yn y nefoedd.

Dyma'r ympryd a ddewisa Duw—ympryd o hunan-ymwadiad dedwydd, er daioni ereill. Darfu i'r Samaritan trugarog ymprydio pan yr arosodd i gynnorthwyo y teithiwr clwyfedig; ymprydiodd Livingstone pan yn rhoddi ei fywyd dros yr Affricaniaid tlawd. Yr ympryd gwirioneddol yw, nid cystuddio ein henaid, ond cynnorthwyo y rhai sydd yn dyoddef, a'u cynnorthwyo yn y modd goreu.

Ac os yw gwasanaeth y Grawys yn cynnorthwyo dynion i hyn, yna, y mae hyn hefyd yn ympryd a ddewisa Duw. Ond os yn dybenu ynddo ei hunan, y mae'n hollol ddiwerth, ac nid oes ynddo ddim ag sydd Gristionogol. Ond os yw yn rhoddi nerth i gorff a meddwl, yn rhoddi nerth i gyflawnu ein gwaith bob dydd, yn ysprydoli â ffydd a dewrder i fod yn Gristionogion byw, yna y mae'n ddoeth a da.

Ympryd wrth fodd calon Duw yw ymroddiad yr holl fywyd i amcanion da; gosod o'r neilldu'n llawen bob boddhad ag sydd yn rhwystro un daioni ag y mae galwad arnom ei wneyd.

Aeth Ioan Fedyddiwr i'r anialwch, gan fyw ar locustiaid a mêl gwyllt, a gwregys o groen am ei lwynau, ac yr oedd yn cael ei gyfrif yn sant. Iesu, Mab y Dyn, daeth ef gan fwyta ac yfed; mynychai y wledd briodasol; byddai'n bwyta gyda Phublicanod a Phariseaid, ymddyddanai â'r swyddogion Rhufeinig a'r wraig o Samaria. Yr oedd

dynion yn ystyried Ioan yn hunan-ymwadol, ond Iesu yn y gwrthwyneb. Etto, yr oedd holl fywyd yr Iesu yn Aberth, yn Aberth dedwydd ac ewyllysgar i'r amcanion goreu.

Y mae gwir seintiau y dydd presenol yn canlyn Iesu, nid Ioan, yn eu dull o ymprydio. Nid ydynt yn ymddangos i ddynion eu bod yn ymprydio. Nid ydynt yn myned allan i'r diffaethwch. Nid ydynt yn gwisgo gwyneb hir, nac yn arfer ymadroddion sanctaidd. Ond y mae eu bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw.

Da fydd, os y caiff angeu ni yn rhodio yn ol traed yr Iesu. Rhoddwn law o gynnorthwy i bob diwygiad, os y medrwn. Mae digon o gyfleusderau yn ein hymyl bob dydd. Gallwn fod yn llygaid i'r deilliion, ac yn draed i'r cloffion, heb fyned yn mhell oddicartref. Y mae ein *Holy Land* ni nid yn Palestine, ond yn ein gwlad ein hunain. Dyma'r ympryd a ddewisa Duw yw, ein bod ni yn dysgu bod bob amser, ac yn mhob lle, yn angylion iddo ef; yn weision daioni i ereill. Nid arfer hunan-ymwadiad allanol ar adegau neillduol, a'r peth yn darfod ynddo ei hunan; ond yn llawen i ymwrthod â'r hunanesmwythyd, a phob pleser ag sydd yn ein hattal i wneyd ymdrech gariadus i fod o wasanaeth i'r hwn sydd yn sefyll mewn angen am ein gwasanaeth. C.

MAI.

Fe daeth Mai eleni etto, i sirioli tir ein gwlad;
Fe ddiflanodd y du Auaf pan y daeth â'i wenau mâd;
Pob planigyn a phob bywyd sy'n adfywio 'nawr i gyd,
Ac mae'n hyfryd iawn i weled yr wyn bach yn chwareu 'nghyd.

Hyfryd odiaeth ydyw clywed sain y gwcw yn mis Mai,
Mae yn seinio ei phêr ganiad 'nawr ar ben y gollen gnau;
Ac mae teulu mawr y goedwig yn telori gyda'r wawr,
Fel pe baent hwy yn moliannu'r Hwn a'u gwnaeth yn fach a mawr.

Mae yr ardd a'r maes yn siriol iawn i'r llygad yn mis Mai,
Ti, bechadur, dos i wrando, gwel mae'n fuan heibio'r ai;
Gâd, O gâd y pethau dderfydd, cyn y cwympo 'th dŷ o glai,
Fel b'o iti gael meddiannu'r wlad na dderfydd byth mo'i Mai.

Gellionen. PHILLIP MORGAN.

I'R NOSON.

Noson yw hon, un sy' hynod,—olaf
Welir; pwy sy'n gwybod?
Mae un, olaf un i fod—
Diwedd oes a dydd isod.—*Ellis Owen.*

CYNNILDEB.

Y MAE cynnildeb a gwastraff yn ddwy anian hollol gyferbyniol i'w gilydd, ac anmhossibl iddynt gydgyfarfod yn yr un person. Tra mae cynnildeb yn beth dymunol a manteisiol iawn i'w arfer, etto, mae'n bossibl i ddynion ei gamarfer, trwy fod yn rhy gynnil, ac wrth hyny, syrthio i gybydd-dod, yr hyn sydd lawn gymmaint o bechod â bod yn wastraffus. Y mae cynnildeb yn rhyw fan canol rhwng y ddau, ac yn ein galluogi i iawnddefnyddio a gofalu am gynnyrchion ein llafur.

Mae agos pawb yn teimlo ofn ac yn arswydo rhag cael eu goddiweddyd gan dlodi, hyd y nod rhai nad yw yn debygol y byddant byth mewn eisieu. Y mae hyn yn ymddangos fel rhyw ddarbodaeth anianol i gymhell arnom y mawr bwys o gynnildeb. Mae yr hen ddiareb yn cael ei gwirio, "Heb gynnildeb nis gall neb fod yn gyfoethog; a chyda chynnildeb ychydig all fod yn dlawd." Pa fwyaf y byddo llwyddiant llawer un, mwyaf i gyd yr ymddengys ei angenion,—maent fel pe yn cynnyddu yn ol fel mae cynnydd ei gyfoeth. Pan fyddo Rhagluniaeth yn gwenu arnom, y pryd hwnw dylem fod yn ofalus i arfer diwydrwydd a chynnildeb.

Gallwn dynu addysgiadau ar y pwnc hwn oddiwrth greaduriaid direswm. Y mae Solomon yn dywedyd nad oes neb gan y morgrugyn i'w arwain na'i gyfarwyddo, na'i feistroli; er hyny, y mae efe yn parotoi ei fwyd yr Haf, ac yn casglu ei luniaeth y cynauaf. Etto, mor brysur a diwyd mae y wenynen yn mhlith y blodau yn casglu mêl i'w ystorio erbyn y Gauaf, pan fydd y blodau wedi darfod, a holl natur fel pe b'ai wedi ei suo i gysgu gan y gwyntoedd Gauafol.

Greddf sydd yn peru i'r creadur fod mor ddoeth yn ei ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol, ond mae gan ddyn rywbeth ag sydd lawer uwch a rhagorach nâ greddf y creadur: y mae wedi ei gynnysgaethu â rheswm, ac yn gallu gweled, i raddau pell iawn, amgylchiadau yr amser presenol a'r dyfodol. Y mae yn gallu gweled y possiblrwydd o gael ei ddal gan gystudd, tymhor caled, a henaint, a dylai y syniad hwn fod yn ddigon o symbyliad iddo fod yn gynnil a darbodus er bod yn feddiannol ar foddion i'w gadw yn y tymhorau y cyfeiriwyd atynt, heb iddo ymddybynu ar drugaredd ereill. Mae rhai dynion yn byw heb un amcan ganddynt mewn golwg, yn enwedig y dosparth gweithiol, gydag ychydig eithriadau. Maent yn hollol ddiofal yn nghylch yr amser dyfodol; gwariant yr hyn oll a ennillant, ac yna, pan ddelo rhyw ddyryswch ar fasnach neu attaliad ar y gwaith, y maent mewn canlyniad yn dlawd iawn eu hamgylchiadau, ac heb ganddynt un *resource* i syrthio yn ol arno; ac felly, yn hollol ymddybynol am gynnaliaeth ar elusengarwch ereill. Nid ydynt yn haeddu cydymdeimlad, o herwydd y maent wedi dwyn eu tlodi arnynt eu hunain trwy eu harferion afradus.

Dywed rhai fod tlodi yn fendith, ond nis gallaf am funyd goleddu y syniad hwn; yn hytrach, credaf ei fod yn fwy o felldith; ac ond i ni ddal sylw, cawn enghreifftiau o hyn yn feunyddiol. Pan na fyddo

tlodi i'w briodoli i un bai, y mae yn anffawd o'r fath waethaf, ac yn cario gydag ef aneirif o niweidiau moesol, deallol, a chorfforol.

Nid oes un ffordd i ddynion ddyrchafu eu sefyllfaoedd ond trwy arfer diwydrwydd, cynnildeb, a gonestrwydd. Dynion o yspryd annybynol sydd amlaf yn arfer y rhinweddau hyn. Nid ydynt yn caru bod dan rwymedigaeth i unrhyw berson. Amddifadant eu hunain o lawer o bethau er mwyn bod yn annybynol. Dylai pob merch a bachgen ieuanc feithrin y teimlad hwn, ac ymgyrhaedd at fod yn hunan-gynnaliol; oddiwrth hyn bydd yn deilliaw ryw deimlad hapus a boddhaol ag a fydd yn gyflawn dâl iddynt am eu llafur. Dylai fod yna ddigon o hunan-barch yn mhob un i'w wneyd uwchlaw ymddybynu ar haelioni un person arall, os yn alluog i ennill ei fywioliaeth ei hunan. Dyma beth yw gwir *respectability* yn ieuenctyd ein gwlad—eu bod yn hunan-gynnaliol, a'u hymarweddiad yn foesol a diargyhoedd yn mhlith eu cydnabod.

Y mae o bwys mawr i'r rhyw fenywaidd yn neillduol i fod yn gynnil, yn enwedig y rhai hyny ag sydd wedi "ymneillduo i'r urdd." Y mae hapusrwydd a chyssur pob aelod o'r teulu yn ymddybynu ar eu gwybodaeth a'u hymarferiad o'r deddfau a'r rhinweddau ag sydd yn angenrheidiol i wneyd cartref yr hyn y dylai fod. Heb wraig dda ni fydd ymdrechion ei gwr ond methiant—bydd un yn ymdrechu cynnilo a'r llall yn gwasgaru. Dylai mamau ddysgu eu merched, nid yn unig pa fodd i gyflawnu gorchwylion y tŷ, ond hefyd i fod yn drefnus, diwyd, a chynnil, yr hyn bethau sydd yn nodweddu gwraig dda. Ond gofalwn rhag rhoddi gormod o ymddiriedaeth a phwys ar ein hymdrechion ein hunain: er mor angenrheidiol ydynt, etto y maent yn annigonol, heb fendith Duw arnynt. Ceisiwn a dysgwyliwn am y fendith hono.

Dylem etto fod yn gynnil ar ein hamser. Amser yw y gwerthfawrocaf o'r holl drugareddau, o herwydd pan ddarfyddo hwn, anmhossibl fydd mwynhau na defnyddio un peth arall. Gellir ailfeddiannu cyfoeth wedi ei golli, ond amser, wedi ehedeg i'r tragwyddoldeb, sydd wedi myned am byth o'n gafael. Bydd tymhor ieuenctid a chanol oed yn fuan ar ben, a Gauaf henaint wedi ein gorddiwes; y pryd hwn, fel y dywed Solomon, "Bydd ceidwaid y ty yn crynu a'r gwyr cryfion yn crymu;" bydd nerth yn darfod, a holl natur dyn yn amlygu fod amser ymddatodiad ei babell yn agoshau. Ni fydd dim i ymddybynu arno y pryd hwn ond yr hyn a gasglwyd o'r blaen, ac mor ddymunol fydd gwybod fod rhywbeth wedi ei barotoi ar gyfer treulio prydnawn bywyd yn ddedwydd. Bydd ein dedwyddwch neu ein hannedwyddwch yn gynnwysedig y pryd hwn yn y defnydd fyddom wedi ei wneyd o'n hamser. Nis gall yr oedranus lai nag adolygu y blynyddoedd sydd wedi myned hebio; mae cyfeillion boreu oes yn ein gadael o un i un, ac mae unigolrwydd henaint yn dyfod i wasgu'n drwm arnynt. I'r oedranus annuwiol, y mae henaint yn fwyaf annyoddefol. Y mae adgofion hen bechodau a gyflawnwyd yn y blynyddoedd gynt yn peru i'r gydwybod euog ddeffro "a rhuo fel arthes." Y maent yn awr yn gwaeo eu hunain am gamddefnyddio eu hamser.

Ond nid felly mae'r duwiol yn ei henaint; y maent yn gallu edrych gyda chydwybod dawel ar y gorphenol, a theimlo mwynhad wrth feddwl am hen oedfaon lle y derbyniasant yn helaeth o'r gwlith ysprydol, nes peru i'w heneidiau adfywio a thyfu mewn sancteiddrwydd. Y maent etto yn gallu tynu cyssur o addewidion Duw am iddynt wneuthur yr Arglwydd yn noddfa iddynt a'r Goruchaf yn breswylfa. Dylai fod pob tymhor yn barotoad ar gyfer yr un canlynol—tymhor ieuenctid ar gyfer tymhor canol oed, a thymhor canol oed ar gyfer tymhor henaint, a'r holl fywyd o'i ddechreu i'w ddiwedd yn barotoad ar gyfer y byd mawr tragwyddol. Ystyriwn ei fod yn ddyledswydd arnom i wneuthur y goreu o'n hamser a phob peth y mae Duw wedi ei roddi i ni; ond os torwn ar draws deddfau natur, bydd y gosp yn canlyn—"Y meddw a'r glwth a ddaw i dlodi: a chysgu a bair fyned mewn gwisg garpiog."

Clydach. MARIANNE POWELL.

CWRDD Y PASC.

Cynnaliwyd Cyfarfodydd Chwarterol y Gymdeithas Undodaidd yn Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, nos Fercher a dydd Iau, Ebrill 13 a 14, pan yr oedd y gweinidogion canlynol yn wyddfodol:—Clarke, Caerdydd; Davies, Alltyplaca; Davies, Cefn; Davies, Dowlais; Evans, Cribin; George, Aberdar; James, Llandyssul; Jones, Llanbedr; Lloyd, Cwmbach; Parry, Bridgend; Thomas, Pantydefaid; Williams, Pantteg; Williams, Merthyr; yn nghyd à Davies, Thomas, ac Onllwyn Brace, gweinidogion capeli Annybynol yn y gymmydogaeth.

Dechreuwyd nos Fercher gan y Parch. Jenkin Williams, a phregethodd D. Evans a W. James, y cyntaf oddiwrth 1 Cor. ii. 2, a'r olaf oddiwrth 2 Bren. x. 29.

Boreu dydd Iau, agorwyd y cyfarfod gan J. Davies, a phregethwyd gan y Parch. Hobart Clarke, Caerdydd, yn Saesneg, a chan R. C. Jones, yn Gymraeg.

Yna, cyhoeddwyd fod cwrdd yr haf i fod yn Capel-y-groes, y Parch. E. W. Lloyd i bregethu, a'r Parch. T. Lloyd Jones i ddarllen papyr ar y pwnc: Beth am ddyfodol Undodiaeth? a therfynwyd trwy weddi gan Mr. Lloyd.

Yn y prydnawn, cawd cynnadledd fywiog ac adeiladol iawn. Dechreuwyd gan Mr. Davies, Dowlais, ac wedi pennodi gweinidog y lle i'r gadair, galwyd ar Mr. James i ddarllen ei bapyr. Pwnc: Beth oedd Efengyl Iesu Grist? Yr oeddym wedi gobeithio cael crynodeb i'r YMOFYNYDD, ond y mae Mr. James yn nacau yn bresenol, gan ei fod gobeithio i'r papur fod o wasanaeth etto yn y dyfodol. Felly, nid oes genym ond dywedyd ei fod yn bapyr ardderchog, ac iddo roddi boddlonrwydd mawr. Canlynwyd ef yn fyr gan Clarke, W. J. Davies, J. J. George, E. W. Lloyd, T. Thomas, J. Davies, a Mr. Thomas y

Tabernacl. Dadganodd yr olaf y pleser a'r adeiladaeth oedd wedi gael yn ein cyfarfodydd.

Yn yr hwyr, awd trwy y rhanau defosiynol gan W. Parry, a phregethodd J. Davies oddiwrth Rhuf. viii. 3, 4; a J. Thomas oddiwrth Mat. xiii. 31. Cafwyd cyfarfodydd ardderchog o'r dechreu i'r diwedd; cynnulliadau lluosog, pregethau da, a gwrandawiad astud, ac nid oes genym ond taer obeithio y bydd iddynt ddwyn ffrwythau addas yn y dyfodol.

Nid ydym yn cofio gweled cynnifer o frodyr o enwadau ereill yn bresenol yn ein cyfarfodydd erioed o'r blaen, a gobeithiwn fod hyny, o leiaf, yn awgrymu fod rhagfarn i raddau yn colli tir.

Wele yn canlyn grynodeb o ddwy o'r pregethau :—

CRYNODEB O BREGETH Y PARCH. R. C. JONES.

Ioan xviii. 37.

Mae yr Iesu, yn yr ymadrodd bythgofiadwy hwn, yn rhoddi ystyr cyffredinol i'r drychfeddwl o Fessia Iuddewig. Mae ef, nid yn unig yn frenin yr Iuddewon, ond y mae ef yn frenin yn nheyrnas gwirionedd. Daeth ef i ddwyn tystiolaeth i'r gwirionedd—dyma oedd ei genadwri fawr. Daw pawb ag sydd yn caru y gwirionedd, rywbryd, yn ganlynwyr iddo. Dyma oedd ei dystiolaeth ddiweddaf am ei argyhoeddiad gyda golwg ar ei waith, a gwir ystyr yr enw Crist neu Messeia.

Gwelwn fod Iesu, cyn ateb gofyniad Pilat, "Ai brenin wyt ti," yn ceisio cael allan feddwl Pilat, i gael gweled a oedd ef yn golygu wrth "frenin" brenin cyfiawnder, brenin heddwch ac ewyllys da, neu dim ond yn unig lywodraethwr daearol. Mae Pilat mewn effaith yn ateb, "Nid wyf yn gwybod ond ychydig am faterion Iuddewig; nid wyf ond yn unig yn gwybod fod yr Iuddewon yn dy gyhuddo o alw dy hunan yn frenin. Pa beth wyt ti yn ei olygu wrth hyn?" Mae yr Iesu, ar ol deall fod Pilat yn golygu brenin yn yr ystyr o frenin daearol, ar unwaith yn gwadu'r cyhuddiad. Meddai, "Fy mreniniaeth I nid yw o'r byd hwn." Nid oedd ei deyrnas ef yn sylfaenedig ar allu cnawdol, ond ar ei allu annghymharol i wybod a dysgu'r gwirionedd. Rhoddodd hyn ryddhad i Pilat oddiwrth bob pryder; iddo ef yr oedd gwirionedd yn beth nad oedd modd cael gafael ynddo. Yr oedd yn ystyried personag oedd yn ymroddi i ddysgu'r gwirionedd yn berson hollol ddiniwed. Yr oedd o herwydd hyn yn gallu dywedyd wrth yr Iuddewon, "Nid wyf fi yn cael dim bai arno."

Yr oedd Iesu yn tystiolaethu fod gwirionedd yn nerthol ac y byddai yn sicr o lwyddo. Trwy nerth y gwirionedd a welai ac a lefarai y mae ef yn awr yn llywodraethu y byd, o herwydd gwir frenin y byd ydyw'r hwn sydd yn llywodraethu dynion trwy reoli eu meddyliau, a'u hysprydoli hwynt ag argyhoeddiadau dyfnion.

Mor fawr yw nerth gwirionedd! Ond cofier mai nid gwirionedd marw sydd yn nerthol, yn cael ei drysori yn y cof ac mewn llyfrgelloedd; ond gwirionedd byw, yr hwn sydd yn rhoddi bywyd mewn en-

eidiau—gwirionedd ag sydd yn gwneyd y rhai hyny sydd yn ei gredu yn frwdfrydig ac ymdrechgar, ac yn eu parotoi i ddwyn tystiolaeth i'w argyhoeddiadau er gwaethaf pob gwrthwynebiad. Y gwirioneddau ag sydd yn nerthol a'r rhai a lwyddant ydynt y rhai hyny sydd wedi gwreiddio yn ddwfn yn ein natur, ac wedi dyfod yn rhan o honom ni ein hunain—nid tybiau, ond argyhoeddiadau—y pethau a welir yn eglur a diamheuol genym.

Dywed Iesu ei fod ef "wedi ei eni i ddwyn tystiolaeth i'r gwirionedd." Nid yw yn dywedyd "i ddysgu y gwirionedd:" yr oedd yn fwy nâ hyn—"i ddwyn tystiolaeth" iddo. Yn ein llysoedd, ni cha neb ddweyd yr hyn y mae wedi ei glywed; y mae yn rhaid iddo ddweyd yr hyn y mae yn ei wybod a'r hyn y mae ef ei hunan wedi ei weled. Felly yn llys mawr hanesiaeth—dim ond y tystion hyny sydd yn cael gwrandawiad, y rhai sydd yn gallu dywedyd, "Yr hyn a wyddom yr ydym yn ei lefaru, a'r hyn a welsom yr ydym yn ei dystiolaethu."

Gosodir allan o'r dechreuad allu rhyfeddol Iesu fel dysgawdwr. Yr oedd yn dysgu fel un ag awdurdod ganddo, ac nid fel yr Ysgrifenyddion. Mae yr Iesu yn rhoddi i ni wybodaeth, ac nid opiniwn. Yr oedd yn llefaru oddiar brofiad byw; traddodai ei genadwri pa un a wnai dynion wrando ai peidio.

Yr oedd Iesu yn wahanol i broffwydi ereill y byd. Yr oedd ef yn uno pob ochr i'r gwirionedd—cariad at Dduw a chariad at ddyn, duwioldeb a moesoldeb, ffydd a gweithredoedd. Yr oedd ef yn gweled hyd a lled, uchder a dyfnder, cariad Duw. Yr oedd ef yn gweled y byddai i ddrwg gael ei orchfygu gan ddaioni ryw ddydd; fod gwirionedd yn fwy nerthol nâ chyfeiliornad, yr hyn sydd iawn nâ'r hyn nad yw, cariad nâ chasineb. Rhoddodd y gobaith hwn i ereill, ac yn nerth y gobaith hwn y trodd yr apostolion y cenedloedd. Yn nerth ffydd dywedodd Iesu wrth yr ychydig ddynion gwan ac anwybodus hyny, "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr Efengyl i bob creadur." Yn nerth y ffydd hon efe a ddywedodd, "A minau, os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy hun." Gwelai yn ei farwolaeth ei hunan ddechreuad bywyd uwch. Yr oedd, i bob ymddangosiad, wedi ei orchfygu gan ei elynion, ond yr oedd ganddo ffydd ag oedd yn ei sicrhau fod y fuddugoliaeth o'i du ef, a dywedai wrth ei ddysgyblion, pe byddai ganddynt ffydd gymmaint â gronyn o hâd mwstard, y gallent ddywedyd wrth y mynydd, "Symmud oddiyma draw, ac efe a symmudai."

Y fath fynydd o annghrediniaeth oedd yn sefyll o flaen yr ychydig ddysgyblion hyn; ond yr oedd ganddynt ffydd yn ngallu eu gwirionedd, a chafodd y mynydd ei symmud a'i daflu i'r môr. Yn mhen tri chant o flynyddoedd daeth Cristionogaeth yn grefydd Ymherodraeth fawr Rhufain. Methodd pob erlidigaeth a chreulondeb a'i dystrywio; ac yn y diwedd, profodd ei hunan yn fwy nerthol nâ phob gwrthwynebiad.

Pan y darfu i Gristionogaeth gael ei llygru gan ei llwyddiant ei hunan, a dyfod yn eglwys nerthol, gan osod ei throed ar yddfau penau coronog y byd, ac erlid hereticiaid y byd, daeth hwn yn fynydd arall eisieu ei symmud. Pa beth allasai dyrnaid o ddiwygwyr wneyd yn erbyn y gallu mawr hwn? Ond yr oedd ganddynt ffydd yn ngallu y

gwirionedd, a gwnaethant ei bregethu, ac mewn ychydig flynyddau, yr oedd hanner Ewrop wedi dyfod yn Brotestaniaid.

Y fath fuddugoliaeth wnawd gan y Tadau Pererinol. Aethant allan dan wylo, ond y canlyniad yw, gwerin-lywodraeth ardderchog America. Buddugoliaeth ddiweddaf a mwyaf gwirionedd oedd symmud caethwasaeth America. Yr oedd pob dylanwad braidd yn erbyn ei symmud, ond cafodd y mynydd hwn hefyd ei daflu i'r môr.

Y mae yna fynyddoedd ereill etto yn aros. Mae yna ddrygau mawrion ereill i gael eu gorchfygu gan yr un gallu mawr. Bydded i ni fod yn obeithiol a ffyddiog.

ABSTRACT OF THE REV. HOBART CLARKE'S SERMON.

2 Cor. i., 12.

Of all the virtues, it is, perhaps, fair to say that sincerity is the most easily understood, and the most deeply appreciated by the modern world. Other virtues are equally important, but none are so intelligible, or so universally popular at the present time: the dominant religious motive of the world, just now, being a passion for truth. One result of this state of things is that multitudes are giving up Religion as a guide in human life, and turning to Science, because they believe that Science tells "the truth, the whole truth, and nothing but the truth," and that organized Religion does not. The sincerity of Christian churches, and church members, is now being widely questioned by all who are not of their fellowship. A suspicion is abroad,—we find traces of it everywhere,—in our books, our newspapers, and our daily conversation, that all professing Christians are more or less hypocritical, and we often hear such an accusation made openly. Yet, the various churches and church members do not resent this suspicion, and they simply try to ignore it, and laugh it away; they allow other men to think, and they themselves almost believe sometimes that at its heart the Christian Faith is rotten and empty like a giant oak with branches still spread abroad, and they wait sorrowfully for the day when it shall fall to earth with a mighty crash never to rise again. Now, there are two reasons for this somewhat vague, but very general, and very powerful suspicion which is like a slow poison eating away the heart of many time-honoured and beautiful religious institutions. *The first* cause is one for which the churches, as churches, are not to blame. It is their duty and their privilege to set before men the life and character of Jesus Christ as an ideal which they must strive to attain. In their efforts to do this, Christians often fail, and the outside world, mistaking the Christian ideal for the Christian law, inclined to judge everything by the measure of its success, making no allowance for inevitable and necessary failures, accuses the Christian of being morally insincere; this accusation is cruel and unjust, coming, as it usually does, from men who feel no Christian enthusiasm, and make no efforts to live the ideal Christian life. Doubtless, Christians are not so much in earnest

as they should be; yet, in their profession of allegiance to a great moral ideal, the vast majority of them are sincere; in fact, their moral sincerity is the salt which saves them; because (and this brings me to *the second cause* of that widespread suspicion with which they are now regarded), intellectually they are not sincere. *They do love what they profess to love; but they do not believe what they profess to believe:* many of them hardly pretend to do so. It is an open secret that the Christian Church, outside of our own little fellowship, is rapidly becoming a church which professes but does not believe. And it seems to me that the public opinion which sanctions such a practice and calls it Christian faith is the most dangerous heresy which ever crept into the bosom of a Christian church. Yet, how common it is: every day we meet people who confess, without hesitation, that they do not believe this or that doctrine which is avowedly and persistently maintained by the church to which they still cling for one reason or another, and in the affairs of which they take an active part—people, who seemingly unconscious of the fact, and often with the best intentions, are gaily playing the part of the hypocrite in the eyes of all the world—people who flatter themselves that they are sustaining that very religion which they are undermining and helping to pull down. Many of them know that they are insincere; "But," they say, "it is in a good cause." A still larger number are quite unconscious of their own insincerity, but the world perceives it, and draws its own conclusions. It says with accents of scorn, "And so this is Christian Faith!" But is it? No; a thousand times no. It is either carelessness, or cowardice, or hypocrisy, and in either case it is false to the spirit and the name of Christianity.

It is no man's fault that he does not believe doctrines which few well-informed and thoughtful men of the present day can believe; but it is his fault that he publicly pretends to do so while denying them in his private conversation and ignoring them in his daily life. Christianity can survive—it has survived intolerance and superstition; but it cannot survive a steady, persistent, and tacitly acknowledged separation between formal faith and real faith; between men's professions and their belief; and the simple Gospel as Christ preached it and lived it, neither requires nor justifies any such separation.

Pilate's question is always important, and it always demands serious consideration; but there is just now, for all people who love the Christian religion, a question even more important. It is this:—What is faith? I blame no man in these days because he cannot decide what is true; but I blame every man who will not decide for himself. What is honest?

What can we, as Unitarians, glorying in sincerity and in the Christian liberty which it gives us, do more than we have done already to convince Christ's followers that, except at their own peril and the peril of everything which they hold most dear, they cannot trifle with that spirit of truth of which their own master said, "I will send him unto you, and he shall lead you into all truth."

POST-CARD SYMPOSIUM.

Yr oedd y Golygydd yn syrthio yn fyr o ddefnyddiau, a meddyliodd dydd Llun, Ebrill y 18fed, y gallai fod yn ddyddorol ac yn adeiladol hefyd pe gellid sicrhau gwasanaeth lluaws o gyfeillion i ymdrin â rhyw un pwnc, ac oll i ysgrifenu ar wahan, i gyfyngu eu sylwadau i gefn *post-card*, a cheisio bod felly yn nerthol, yn fyr, ac i bwrpas. Anfonwyd allan ar unwaith ryw 15 neu ragor o geisiadau at rai y tybiem y caem help oddiwrthynt. Yr ydym yn cyhoeddi yr atebion a ddaethant mewn pryd, gan eu trefnu yn ol y *date* y daethant i law. Yr ydym wedi gadael i'r cyfeillion lefaru yn eu hiaith eu hunain, a gobeithiwn y gwnaiff ein darllenwyr roddi sylw manwl iddynt. Fe welir eu bod yn gwahaniaethu fwy neu lai yn eu syniadau. Gellir casglu fod rhai o'r cyfeillion hefyd wedi myned yn ddyfnach i'r pwnc nag oedd maint y *post-card* yn ei ganiatau. Y pwnc dan sylw yw,

A YDYW DYN WRTH NATUR YN DDA NEU YN DDRWG?

IS MAN BY NATURE GOOD OR BAD?

Man was created by the will of God. What God has created must be good. Therefore, man's nature must be good. At the same time, man is not a perfect being, and, therefore, is liable to err. Perfection only belongs to God. Man's imperfection often leads him into evil paths; but his good *natural* tendencies are ever active in endeavouring to win him back to the path of rectitude. The greatest criminals and liars resent being accused of their sins; proving, I think, most conclusively, that the nature of man inclines to the good and not to the bad. Nestor R. Williams, Merthyr Tydvil.

Ar yr olwg gyntaf ymddengys yn bob un o'r ddau, ond, yn ol Tennyson, "Second thoughts are best," a'r ail olwg mae yn wahanol. Gwir yw nas gellwch dynu dyn oddiwrth ei dylwyth; fod John neu Thomas wedi etifeddu tueddiadau drwg a da oddiwrth y llinach y ganwyd ef iddo; iechyd da neu ddrwg, tymher frysiog, &c. Gwir hefyd fod dyn wedi ei osod gan Dduw ar linell cynnydd a gwelliant. Nid yw y cwestiwn yn golygu John neu Thomas yn neillduol, ond *dyn*, neu ddynoliaeth; ac y mae hanes dyn yn hanes o gynnydd graddol a pharhaus. Nid oes un duedd naturiol mewn dyn nad yw, yn ei lle priodol, yn ol ei hamcan iawn, yn dda. Nid yw newyn a syched ond cloch natur yn galw i giniaw, felly yn dda. Yn yr iawn ddefnydd o honynt, y mantoliad priodol yn ol eu natur, eu hamcan, a'u pwysig-

rwydd, mae holl ranau natur dyn, ac felly dyn, yn iawn, yn dda. Yn y camddefnydd mae y drwg. Nid oes dim yn Darwin yn wrthdarawol i hynyna. R. JOHNSON.

MAE yn ymddybynu yn gyfangwbl *pwy* yw y dyn. Mae rhai dynion, nid yn unig o natur ddrwg, ond wrth eu natur yn ddrwg;* mae rhai hefyd, nid yn unig o natur dda, ond wrth eu natur yn dda; tra y mae y mwyafrif mawr wrth eu natur yn fwndel cymmysg o dueddiadau—rhai yn ddrwg a rhai yn dda. Mae y syniad fod pob dyn yn dyfod i'r byd fel papyr gwyn, ac y gellir ysgrifenu arno yr hyn a fynir, yn groes i reswm, gwybodaeth, a phrofiad y byd. Gwelir profiad y Cymry yn y ddiareb, "Tebyg i ddyn fydd ei lwdn:" "Like father, like son," medd y Sais. Nid yw ysgall yn dwyn ffigys, na ffigys ysgall, yn ol barn Un a wyddai natur dyn. Mae pawb yn cydnabod hyn pan yn chwilio i gymmeriad dyn ifanc; nid yn unig gosodir pwyslais neillduol ar gymmeriad y tad a'r fam, ond hefyd ar gymmeriad *y tylwyth:* dywedir fod y crwt "yr un drwyn â'i dad," ond "yn tynu ar ol tylwyth ei fam." Pa beth yw hyn ond addefiad croew o drosglwyddiad tueddiadau? Olreinir y dyferyn du tu ol i'r tad a'r fam i'r tylwyth. Mae pawb sydd wedi agor eu llygaid yn gwybod ac yn addef hyn yn mhob man *ond yn yr eglwys a'r pwlpud.* Ofer beio Adda, druan, *heb holi hanes ei dylwyth.* Beth am yr epa? Mae ofn ar ddynion ddweyd y gwir gerbron eu Duw; felly, rhagrithiant "yn nhy Dduw," a meddyliant y deuant dros ben y Creawdwr trwy fflatro digon iddo, a chanu ma's o diwn,

"Arglwydd, cymmer fi fel yr wy', fel yr wy'."

Ond y mae lle i gredu a rheswm i obeithio y bydd yr ARGLWYDD yn fwy *particular*, ac y y caiff pob dyn yn ol y defnydd a wnaeth *o nifer a natur* y talentau a roddwyd iddo. J. GWENOGFRYN EVANS.

---

* Oesoedd yn ol fe fu byw greadur scaprwyth o'r enw Margaret yn un o dalaethau America. Bu Margaret yn fam i deulu lluosog, yr hwn a amlhaodd yn fawr. Heblaw nifer mawr o feddwon, rhai gwan eu meddwl, *idiots, lunatics, prostitutes*, &c., mae hanes y sir yn dangos fod dau cant o epil Margaret wedi bod yn y jâl. (Gweler *Man versus the State*, gan Herbert Spencer, p. 69.)

YN ngwyneb y daliadau ydynt wedi eu coleddu o barthed fod dyn wrth natur yn ddrwg, yr wyf fi yn credu fod dyn wrth natur yn dda—ei fod yn Ddwyfol am mai Duw a'i gwnaeth ef, ac fod fflam o natur odidog Duw wedi ei chynneu yn ei enaid, yr hon ni ddiffydd byth. Os genir dyn mewn pechod, byddai y byd yn annhraethol dlotach oni bai y "pechod" hwn, oni bai y beirdd ysprydoledig, yr athrawon da, a'r rhieni anwyl, ag ydynt wedi bod yn halen cymdeithas ac yn oleuni y byd ar bob amser. Dywedir i ddyn syrthio yn Adda. Syrth dyn o

hyd trwy bob gweithred annheg, trwy bob trais a gormes y bydd efe yn euog o honynt. 'Does neb am fod yn wael ac yn isel; mae pechod yn elfen ddyeithr i ddyn—rhywbeth annaturiol iddo. Daioni yw yr hyn a gâr oreu; i'r lan mae ei gyfeiriad—tua'r nefoedd mae ystum ei enaid. Edmyga y dyn mwyaf drygionus yr amlygiad gwanaf o fawredd ac arucheledd moesol; hiraetha bob amser am ymgodi yn uwch mewn purdeb, ac ymegnia am ddyfod yn well-well o hyd. Dengys hyn mai nid gwaelder a drygioni yw cyflwr naturiol dyn, ond y bwriadwyd ef ar gyfer y da, y pur, a'r ardderchog. Plentyn Duw yw, wedi ei greu ar lun ac ar ddelw ei Dad, ac yn gymhwys i ddyfod yn berffaith, fel mae Duw yn berffaith. J. H. D.

Credai yr Iuddew gynt fod dau angel gyda dyn—un da ac un drwg. Yn awr, gallwn feddwl fod rhywbeth tebyg iawn i hyn yn wir. Mae dau lais yn llefaru, ac y mae dinystr neu iechydwriaeth dyn yn dybynu ar ba un y bydd efe yn gwrando arno; hyny yw, y mae yn mhob dyn ddigon o ddrwg i wneuthur diafol o hono, a digon o dda i wneuthur sant; ac y mae ar ei law ef ei hun i benderfynu pa un fydd. Os gwrando wnaiff ar hudoliaethau'r byd a'r cnawd a'r cythraul, gwae fydd iddo. Ond nid oes eisieu iddo wneuthur felly. Yn ddiamheu, fod llais y tri yna yn llawer cryfach yn rhai ná'u gilydd, ond nid oes rhaid i neb wrando arnynt. Dyledswydd dyn yw ceisio gyru allan yr anifail o'i natur, a rhoddi ei le arbenig i neillduolrwydd arbenig ei natur ddynol. Mae yr ateb i'r cwestiwn yn debyg i'r ateb a roddem i gwestiwn arall, "Pa un ai da neu ddrwg wrth natur yw y *piano?*" Da, yn ddiau, ar y cyfan, yn y gwneuthuriad a'r amcan; ond y mae yn dybynu ar y *pianist* i ddwyn allan y gerddoriaeth felus. Mae gogwyddiad dyn tuag i fyny, a gwasgiad ei amgylchynedd ar hyd llinell perffeithrwydd. J. Jones.

Nis gellir amheu nad yw y dynion a'r benywod sydd ar y ddaear yn awr yn llawn o wendidau, o ffaeleddau, a thueddiadau at bechod a drygioni. Ond yn wreiddiol ac wrth natur y mae dyn yn dda. O herwydd, os oes Duw, os ydyw yn Dduw Anfeidrol o gariadlawn, ac os yw dyn yn blentyn i Dduw, buasai ei waith yn creu ei blant yn ddrwg wrth natur yn hollol annghysson â'i gariad a'i ddaioni. A. B.

Nid yw dyn wrth natur yn hollol dda neu ddrwg. Mae rhan o'r angel yn mhob dyn, a rhan o'r anifail hefyd. Mae tuedd mwy neu lai at y da yn mhob dyn, a thuedd fwy neu lai at y drwg hefyd. Mae mwy o duedd at y da mewn rhai nag ereill, a mwy o duedd at y drwg mewn rhai nag ereill. Nid oes neb mor dda fel nad yw yn agored i gael ei demtio gan y drwg, na neb mor ddrwg fel nad oes rhyw duedd at

ddaioni yn ei natur. Ar y cyffredin gweithio at ddaioni mae y natur ddynol. Y da sydd yn cael ei edmygu fwyaf gan y mwyafrif. Yn y da y derbyn dyn ei nefoedd neu ei hawddfyd. W. P.

Credaf nad yw dyn ddim yn hollol dda neu ddrwg wrth natur. Mae yn *fwndel* o dueddiadau yn y ddau gyfeiriad, y da yn gorbwyso mewn un dyn, a drwg yn y llall. Nid wyf yn credu fod y natur ddynol yn *wreck*, ond ei bod yn anmherffaith ac annghyflawn. Mae pechod yn glefyd yr enaid, ac nid yn rhan gyfansoddiadol o hono; mae nodweddion da yn gystal a drwg wedi cael eu trosglwyddo i lawr o genedlaeth i genedlaeth; mae mewn dyn ei natur uwch a'i natur îs, a'r peth mwyaf pwysig yn ei fywyd yw y frwydr rhwng y ddwy hyn a'r canlyniadau. Credaf fod buddugoliaethau y natur uwch yn amlhau o hyd, ac fod dynoliaeth yn tyfu o radd i radd, ac yn dangos yn fwy amlwg yn ei chynnydd brydweddau y ddelw Ddwyfol sydd wedi eu hargraffu arni. W. J.

Man by nature is neither good nor bad. He is an imperfect being, but he has in him infinite possibilities. I do not believe he is by nature evil and incapable of any good. Were this true of him, it would be folly to invite him to strive after the perfection that is in God. And yet Jesus gave man this invitation. He therefore could not have believed in the later Calvinistic doctrine of man's total depravity. Moreover, man is not perfectly good, for were this the case, there would be in him no room for improvement. It seems to me then, as would be implied in the modern doctrine of evolution, that man is a progressive being, weak and frail, liable to go astray, but still a being who moves forward towards higher things, "with the process of the suns." Such a view of man's nature is in accord with the general testimony of history. I am prepared to admit that, as believers in heredity assert, man inherits certain propensities from his progenitors, but these are not all evil. The tendency of our age is towards higher views of man's nature, and against the degrading notions of Calvinism. Geo. Evans.

Good means "adapted to the social state," and bad the opposite. The nature of the average man in one state of civilization differs materially from that in another. The best evidence of this is in the growth of a criminal jurisprudence, a crime is an offence against society, and is simply the breaking out of the unsocial nature of man. In primitive times, it was regarded simply as a wrong done to an individual, which it was his duty, and that of his kinsmen, to avenge. In time, the sacred duty of revenge was transferred to the state—in

legal parlance a *tort* became a *crime*. The well recognized fact that crime is diminishing and becoming more subtle in character, affords conclusive proof of the gradual elimination of the bad trait of human character, and of our progress towards that

One far-off divine event
To which the whole creation moves.

BARRISTER.

NODYNAU GWASGAROG.

JUWBILI Y FRENINES.

Cydnabyddir yn gyffredin, yr wyf yn meddwl, fod plwyfi Llanwnen a Llanwenog wedi ennill y dorch o ran gwreiddioldeb syniad ar y pwnc uchod. Maent wedi cwrdd â'r amcan trwy daro ar gynllun o ddefnyddioldeb mawr; sef, cael elorgorbyd (*hearse*) at wasanaeth y plwyfolion. Mae *Punch* mawr Llundain yn cymmeradwyo y cynllun yn fawr, a thybir y gall y marw ei hunan ddygymmod yn well â'i dynghed wrth gofio y caiff ei gorff ei gludo i'w orphwysfan yn elorgerbyd Juwbili y Frenines. Dysgwyliwn glywed llawer o'r ardal hon yn y dyfodol fod yr ymadawedig wedi cael cynhebrwng anrhydeddus, ac fod ei gorff wedi ei gludo i'w wely olaf yn elorgerbyd Juwbili y Frenines.

M. G. G.

DARLLEN Y NEWYDDIADUR.

Mae ffordd *right* a ffordd *wrong* i chwythu canwyll, ffordd *right* a ffordd *wrong* i ferwi pytaten, ffordd *right* a ffordd *wrong* i gloi clo, ac i ddarllen llyfr, ac hyd y nod i ddarllen y newyddiadur. Yr oedd y bardd enwog Alexander Pope, medde' nhw, yn arfer dywedyd ei fod o'r un farn a'r llyfr diweddaf a ddarllenai; ac yr wyf yn gwybod am rai ag ydynt yn wastad o'r un farn ar bob pwnc a'r newyddiadur y byddant yn ei ddarllen. Yn awr, yr wyf fi yn barnu nad yw hyn ddim yn iawn. Dylem ddarllen, nid er mwyn bod yn rhywun arall, ond er mwyn bod yn ni ein hunain. Dylem wneuthur ymdrech i godi uwchlaw yr yspryd epäaidd hwn, a thyfu nid yn gymmaint trwy ychwanegiadau allanol, a thrwy ddadblygiad mewnol. Y ffordd gyffredin, ond ffordd *wrong*, fel y tybiaf fi, i ddarllen newyddiadur, yw ceisio yn gyntaf farn y golygydd am y ffeithiau, ac yna myned at y ffeithiau eu hunain a'u ffitio i farn y golygydd; yn lle chwilio'r ffeithiau, darllen yr hanes, tynu'n casgliadau, ac addfedu ein barnau ein hunain yn gyntaf, ac wedi hyny edrych beth yw barn y golygydd. Dyma'r ffordd y deuwn ni i gymmeryd golwg *intelligent*, deallus, ar bethau; a dyma'r ffordd

gawn ni yn y *long run* yn fwyaf gwasanaethgar, yn fwyaf llesiol ac adeiladol; a dyma'r unig ffordd i ni ddadblygu a nerthu ein personoliaeth ein hunain yn lle ei wanychu, a'i golli yn mhersonoliaeth ereill. Ceisiwn fod yn ddynion ac nid yn epaod.

S. N. S.

LEAD THOU ME.

Cyf. o Emyn 92, *gan y Parch. W. Thomas (Islwyn.)*

In dire temptations when I stray,
O lead me to the heavenly way;
And in my darkest trials be,
Eternal Spirit, still with me.

A pilgrim far away I roam,
But looking towards my heavenly home;
When from my myriad foes I'd flee,
Father of pilgrims, lead Thou me.

In paths of peace lead Thou me still,
Submissive to Thy heavenly will;
And to the end victoriously,
Through every gloom, O lead Thou me.

I'll go through death's deep surging tide
Rejoicing, if Thou be my guide;
To heaven beyond life's stormy sea,
O Lord and Father, lead Thou me.

T. C. U.

DARLLENWN Y DDWY OCHR

Fel bodau rhesymol, i brofi pob peth a dal yr hyn sydd dda. Nid dyma y rheol. Nage ddim. Ni wnaiff y Tori ddim darllen papyr y *Radical*, na'r *Radical* ddim darllen papyr y Tori—ddim hyd y nod pan y mae yn ddigon cyfleus. Felly, yn mhlith yr enwadau, ceir pob enwad, fel rheol, yn cyfyngu ei hunan i'w lenyddiaeth ei hunan, ac i'w bregethwr ei hunan. Yn mhlith pob enwad y mae pob pregethwr o enwad arall, mewn ystyr yn *heretic*. Ni wyr neb pa faint mae yn golli trwy gymmeryd golwg gul fel hyn ar bethau. Hyd y nod lle mae'r ewyllys yn mhlith ein tystion i roi'r gwir i ni, nid yw yn ddyogel bob amser i ni gredu; ond lle mae rhagfarn a dallbleidiaeth grefyddol neu wleidyddol yn gwrthod, sut y gallwn ni ymddiried yn y dystiolaeth? Pan y dywed un papyr wrthym fod 150 o bersonau yn bresenol mewn man neilldduol ar amgylchiad neilldduol, a phapyr arall fod yno 5000, sut cawn

ni afael yn y gwir? A gawn ni ychwanegu y naill rif at y llall a tharo *average?* Mae gormod o'r eithafol yn fynych ar bob tu. Y pwnc mawr yw, sut mae dyfod at ffeithiau, ac oddiar y ffeithiau i dynu ein casgliadau ein hunain. Daliwn ar egwyddorion, a cheisiwn eu cyfleu, ac yna bwriwn ragolwg ar y dyfodol oddiar ein safle personol ein hunain. S. N. S.

PROFFESU A GWEITHREDU.

Mae dyn yn syrthio yn fyr o sylweddoli ei *ideal* uwchaf; ac yr wyf fi yn credu fod hyny yn anocheladwy ac yn fwriadol ar gyfer dyn. Dyledswydd dyn, wrth gwrs, yw ceisio sylweddoli y cyfryw *ideal*, ond gan ei fod hefyd yn ddyledswydd arno i osod ei *ideal* mor uchel ag y gallo, mae yn rhwym o fod yn canlyn fod y sylweddoliad yn syrthio yn fyr. Yr hen wers yn Lennie's Grammar yw, os bydd i ddyn ffurfio barn am Gristnogaeth oddiwrth ymddygiad rhai o'i phroffeswyr, y dichon iddo ffurfio barn annghywir iawn yn wir. Ond dyma wneir o hyd. Deallwn fod Cotter Morison, yn y llyfr y mae wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar, yn ei gyfrif yn ddiffyg ar Gristnogaeth nad yw Cristnogion ddim wedi sylweddoli yr *ideal* sydd ganddynt. Nid diffyg Cristnogaeth 'mo hyny, fodd bynag, ond diffyg Cristnogion; ac y mae Cristnogion yn cyflawnu eu rhan pan yn gwneuthur eu goreu i sylweddoli yr *ideal*. Nid yn yr *ideal* mae y diffyg ddim. Mae eisieu i'r *ideal* fod mor berffaith ag y byddo modd, ac eisieu i ninau wneuthur pob ymdrech i'w sylweddoli. O! mor ogoneddus fyddai ein byd pe gellid yn gyffredinol sylweddoli yr *ideal* Cristnogol. Ni iyddai eisieu carcharau, fel y dywedodd y Parch. Jenkin William yn Aberdar, ni fyddai eisieu *policemen*, na chlo ar ddrws nac ar *ddrawer*. Byddai diwedd ar bob ymryson a rhyfel, a byddai cariad a thangnefedd yn llywodraethu yn mhob man.

T. C. U.

ERASMUS A LUTHER.

Mi garwn yn fawr pettai rhywun yn ymgymmeryd ag ysgrifenu tipyn ar y ddau ddyn enwog hyn mewn ffordd o bwyso a mesur eu gwaith, a'u cymharu felly â'u gilydd. Y mae pob un o honynt wedi cael cam ar law rhai o'u holynwyr. Mae yn ddiamheu mai creadur trwsgl oedd Luther, ond yr wyf yn credu mai efe oedd y dyn iawn yn llaw Rhagluniaeth i gyflawnu y gwaith oedd ar ei gyfer. Ni ellir yn dda dori maen â *razor*. Dyn o yspryd mawr a galluog a allai sefyll yn ngwyneb rhuthr-ymosodiadau mwyaf beiddgar ei oes oedd. Yr oedd Erasmus ar y maes o flaen Luther, ac fe 'i bëir yn fynych am na ddarfu iddo helpu gyda gwaith y Diwygiad Mawr. Yr oedd yn ysgolhaig mawr, ac y mae yn ddiamheu y gallai roddi help pe ceisiai. Ond fe ddylid cofio hyn, fod y mudiad Rhyddfrydig wedi cychwyn yn Rhydychain cyn i Luther ddechreu. Y peth tebyg, fodd bynag, yw hyn,

fod nodwedd athrawiaethol y Diwygiad Lutheraidd yn gyfryw nad allai Erasmus ddim ymuno ag ef. Gallwn feddwl y byddai mor anhawdd i Erasmus uno yn galonog â gwaith Luther ag y byddai i'r Undodiaid uno yn galonog yn ngwaith y Fyddin Iachawdwriaeth. Nid wyf yn gweled yn dda sut y gallai. Mae yn ddiamheu y byddai ei enw yn sefyll yn uwch ar rai ystyriaethau pe byddai wedi gwneuthur hyny. Ond camsyniad yw tybied fod gwaith Erasmus yn ofer, neu fod ei enw ar syrthio i ddifancoll. Ni gawn glywed rhagor am Erasmus etto.

B. C. D.

AR GLADDEDIGAETH WILLIAM DAVIES (WILLIAM DAFYDD), CRAIGTREBANOS, DYFFRYN TAWE.

(O'r Drych Americanaidd, Chwefror 24, 1887.)

Yn mynwent Gellionen,
Yn huno'n y graian mân,
Mae llwch yr hen bererin,
A'i enaid yn myd y gân.

Yn mynwent Gellionen,
O gynhwrf a thwrf y byd,
Mae bedd ein "William Dafydd"
Sy'n fyw yn ein cof o hyd.

Hen fynwent gyssegredig,
O dywed, sawl Cristion blin
Roed rhwng dy oer briddellau,
Fu'n anwyl gan Dduw a dyn?

Eu dysglaer fad rinweddau,
Yn aros sydd ar eu hol,
Mor fyw â sawr y rhosyn,
Mor ieuanc â'r werddlas ddol.

Ol llaw un cerfiwr medrus,
Nid oes uwch y beddau mud,
Na maen na mynor costfawr,
Na rhwysgedd addurniant drud.

Uwch rhai fe geir yr awen
Yn coffa eu bywyd clir,
Neu adnod, dd'wed mai deiliaid
Ym oll i'r Machpelah dir.

Mewn congl orllewinol,
Dan gangau yr ywen werdd,
Lle trig gwarcheidiol engyl,
Mae beddrod hen noddwr* cerdd.

Dystawrwydd dwfn a sanctaidd,
Deyrnasa fyth uwch pob bedd,
Os nad yw bref yr oenig,
Yn aflonyddu eu hedd;

Neu fud, Ddwyfolaf fiwsig
Rhyw seraph o'r nef i lawr,
Neu eurgainc yr ehedydd
Sy'n llamu wrth wel'd y wawr.

Bloedd y diweddaf udgorn,
Cyn llosgi o'r byd yn sarn,
Hen fynwent, fe adgyfyd
Dy feirwon o'r bedd i farn.

Rhyddheir hwynt oll pryd hwnw,
Os caeth ydynt oll yn awr,
A delw eu Creawdwr
A wisgant mor glaer â'r wawr.

Buffalo, N. Y.

D. IFOR DAVIES (Dyffrynfardd).

---

* Theophilus Davies, tad Ieuan Ddu, Provo City, Utah.

EMYNAU Y CYSSEGR.

Mae gohebydd wedi gwneuthur adolygiad o'r argraffiad cyntaf o'r llyfr hwn. Yn ddiamheu, hwn ydyw y gwerth swllt rhyfeddaf yn mhlith llyfrau Cymreig. Cynnwysa 2,685 o emynau Cymreig, a 72 o

rai Seisnig, a bwriedir ef i fod yn llyfr cenedlaethol. Syrthia yn fyr yn ein golwg ni, fodd bynag, o'r hyn y dylai llyfr felly fod, a hyny yn benaf am fod ein syniad o'r hyn y dylai emyn fod yn wahanol i eiddo y golygydd. Cydnabyddwn fod y llyfr yn werthfawr, ac yn ddyddorol iawn, ac yn rhoddi i ni ugeiniau o emynau da, etto, nid yw y mwyafrif ond math o adsain o gorff o dduwinyddiaeth nad yw dderbyniol genym ni. I'n tyb ni, dylai emyn fod mor rhydd o dduwinyddiaeth, ac yn nellduol o dduwinyddiaeth wahaniaethol yr enwadau, ag ydyw *tune*. Mawl a gweddi yn benaf ddylent nodweddu emyn. Mae yr ail argraffiad hwn mewn llythyren fras, ac yn gwneuthur cyfrol ddestlus. Ceir ynddo hefyd amryw welliant gwallau, ac yn neillduol mewn perthynas i enwau awdwyr. Y mae yma ormod etto yn anadnabyddus, ac fe ddylai pawb a allont roi help i'r golygydd anturiaethus i olrain rhagor o'r rhai hyn at eu hawdwyr. Dyma'r ychydig help a allwn ni. Emyn 1303, gwaith D.D., Castell Hywel, Sir Aberteifi, ydyw. Gwaith Owen Rees, gweinidog cyntaf Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar, yw 2353, 2358, 2359. Gwaith D. Silvan Evans, Llanwrin, yw pennill 3 o emyn 2458. Mae amryw o'r emynau a briodolir i Dr. Watts yn eiddo David Jones, o Gaio, fel cyfieithydd, megys 1844, 1798, 1847, 2454, 2455, &c., &c. Dymunwn argymhell y llyfr gwerthfawr hwn i sylw pawb o'n darllenwyr ag ydynt yn caru gwybod beth yw emynau Cymru. S. N. S.

Y LLYFR COCH O HERGEST.

Aethom i'r wasg yn rhy gynnar y mis diweddaf i wneuthur sylw o ymddangosiad y llyfr uchod, dan olygiaeth y Proffeswr Rhys a'r Parch. J. Gwenogfryn Evans, o Rydychain. Odid na wyr ein darllenwyr fod ein cyfaill, Mr. Evans, wedi ei orfodi i roi y pwlpud heibio o herwydd afiechyd. Da genym, yn ngwyneb y gyfryw anffawd, ei fod wedi llwyddo i gael gafael mewn cylch arall o ddefnyddioldeb. Rhyw dair blynedd yn ol ennillodd wobr o £20 yn Eisteddfod Lerpwl am gasgliad o ddiarebion. Oddiar hyny y mae wedi cyflwyno ei sylw yn benaf at yr hen ysgrifau Cymreig; ac yr ydym wedi darllen, ar awdurdod uchel, ei fod erbyn hyn y mwyaf hyddysg yn y cyfryw—*the greatest living Welsh paleographer.* Ystyrir y Llyfr Coch yn un o'r hynaf a'r mwyaf gwerthfawr o'r ysgrifau Cymreig; ac i ysgolheigion y mae o'r pwys mwyaf i gael copi cywir o hono. Yr oedd yr argraffiad a adwaenir fel eiddo Lady Charlotte Guest yn ddyddorol, ac wedi ein dwyn i adnabyddiaeth o natur y cyfoeth sydd yn y Llyfr Coch; ond nid oes yno un cais wedi bod i roddi i ni adlewyrchiad cywir a pherffeithgwbl o'r hen ysgrifau, fel y ceir yn yr argraffiad newydd hwn. Yr ydym yn llongyfarch Mr. Evans am ei wasanaeth yn y cyfeiriad hwn, ac yr ydym yn taer gymhell i sylw pawb a garant eu gwlad, eu hiaith, a'u cenedl, y ddyledswydd o roddi help iddo i ddwyn yr anturiaeth bwysig hon i ben yn anrhydeddus. *Address* Mr. Evans yw 7, Clarendon Villas, Oxford.

BETH SYDD YN GWNEYD CARTREF?

Nid yw cartref yn cael ei wneyd i fyny o ystafelloedd eang, llawrleni newyddion, hen deisbanau, darluniau heirdd a chostus, na rhialtwch a gloddest beunydd. Ni wna chwaeth, cyfoeth, cwrtaith, ac addurniadau corfforol, gartref dedwydd ar eu penau eu hunain; y maent yn werthfawr iawn yn eu lle, ond ni roddant allan yr hyn nad oes o'u mewn. Nid yw absenoldeb y pethau hyn ychwaith yn brawf dros gartref dymunol a hapus, y mae yn bossibl y gall baw, anmhuredd, annghymmedrolder, a diffyg teimlad da, i ychwanegu tristwch a gofid blin, fod yn gyssylltiedig â'r swyddi a'r sefyllfaoedd uwchaf a mwyaf pwysig a difrifol. Gyda golwg i wneyd cartref yn un cyssurus a thangnefeddus, safwn mewn angen am aldfwynder, caredigrwydd, galwad neu waith priodol a bendithiol, teimlad da, egwyddor a lywodraetha hunanoldeb, a chydwybod wedi cael ei chymhwyso i barchu awdurdod, dyledswydd, a Duw. Y mae yn rhaid i ni fod yn feddiannol ar fwyneidd-dra menyw dyner ei chalon i felusu pob chwerwedd mewn bywyd, ac i berarogli yr awyr foesol o'n hamgylch, ac i droi y chwerw yn felus, a'r annymunol yn ddymunol a nefol. Rhaid yw i ni gael dyoddefgarwch wedi ei feithrin gan gariad, ac amynedd, callineb, a gwir ddoethineb. Rhaid yw i ni anadlu awyr foesol ac ysprydol y nefoedd, ac ymostwng yn galonog i drefniadau yr Hwn sydd yn goruwch-lywodraethu pob peth yn y nefoedd, yn ol cariad ac ewyllys da, a doethineb anfeidrol a digamsyniol, yr Hwn sydd yn pennodi dyledswyddau, a chymmeradwyaeth yr Hwn yw ein nefoedd yma, ac a bery felly i bob tragwyddoldeb.

AWEL DDISYFYD (SQUALL).

"A fuoch chwi erioed mewn awel ddisyfyd?" gofynai hen forwr i ddinesydd doeth. "Wel, dychymygaf felly," atebai y dyn da. "Yr wyf wedi cynnorthwyo iddwyn i fyny wyth babi."

PA FODD I GYRHAEDD Y GALON.

Yr ydym wedi cael allan trwy brofiad bellach, mai trwy garedigrwydd y mae cyrhaedd y galon, ac nad yw chwerwder ond megys elfen oeraidd a rhewllyd y Gogledd yn caledu ac yn oeri y ffrwd ddylai lifo tuag i waered mor llon a nant risialaidd yn y Gwanwyn. Y mae caredigrwydd megys yn peru dysgleirdeb haul yn mha le bynag y mae yn myned—y mae yn cael y ffordd i fewn i gelloedd cuddiedig y galon, ac yn dwyn allan drysorau o aur pur; y mae chwerwder, ar y llaw arall, yn ei selio yn gaeth i fyny dros fyth. Beth mae caredigrwydd yn ei wneyd gartref? Y mae yn gwneyd hûn-gân y fam yn felusach nâ

chân yr uchedydd, ac ael bruddaidd a thrwmlwythog y tad a'r masnachydd yn llai annymunol a chaled yn ei hedrychiad, a'r plant yn fwy llawen ac heb fod yn derfysgus. Caredigrwydd yw gwir gyfraith sylweddol bywyd, y ddolen sydd yn uno y ddaear gyda'r nefoedd, gwir garreg yr athronydd, oblegyd, y mae pob peth y mae yn cyffwrdd ag ef yn cael ei droi i aur pur—y gwir aur, â'r hwn y pwrcaswn foddlonrwydd, tangnefedd, a chariad.

MOESAU DA.

Nac ymddangoswch fyth i sylwi ar graith, anferthwch, neu ddiffyg mewn unrhyw un fyddo yn bresenol gyda chwi yn yr ystafell neu ryw fan arall. Dywedwch gymmaint a fynoch am eich beiau eich hunain a'ch camgyflawniadau—nid eiddo eich brodyr a'ch chwiorydd.

COSFA I'R CNOWR MYGLYS YN NHY DDUW.

Holo, was! cnoi'r myglysyn
Yn nhŷ Dduw, yr aflan ddyn!
Wamal wr; yn y deml lân
A'th weflau yn drwyth aflan!
Clyw hyn, y llepyn llipa,
Siolwag, haeddet gosfa gas.
Diau'r wyt yn frawd i'r hwch
I noddi aflaneiddiwch.
Hach! llysnafaidd lafaidd li'
Yn aberoedd o boeri;
Morio wyt mewn anmhuredd
Lawer Sul ar lawr y sedd;
Arogl y sedd lle'r eisteddi
Yn wir gwyd gyfog ar gi:
Mae cyffeiriau o dy enau'n d'od
A lewygai heidiau o lygod!
O dy gylch yn glyd eu gwedd,
Gweli enwog wyr glanwedd;
A thi, *Joe*, fel Sambo'n syn,
A sug yr afiach soegyn
Yn rhedeg mewn mawrhydi
Ewyn dwr dros d'enau d'.
Pla'n awr wyt i'n capel ni,
Ar y fainc fel rhyw fwnci;
Yn cnoi fel mewn gwanc newyn
Yr hen ddeilach afiach hyn.

Yn lle rhoi'r clod i'r Bod sydd ben,
Tydi addoli'r hen ddeilen.
Gwarthus ydwyt a gwrthun,
Yn dy sedd nis dewis un
Aros i wrando orig
Ar dy bwys, wr hir dy big.

Ac yn rhwydd i d'wydd gwn nas daw—un dyn
Heb fod arswyd arnaw ;
Mi dalwn am dy wyliaw
Yn nghil y drws neu'r gongl draw.

Y bodyn, os na adewi—drafod
Y rhyfedd aflendid,
Gwnaf fy llw, ac yn fy llid
Ceisiaf *garbonic acid.*

Now, sir, I tell ounce or two
I'th ddannedd o'r trwyth hwnw,
A'th huda y brith adyn,
O th wael nod i dd'od yn ddyn.

BRYNFAB.

Manion a Hanesion.

Estynir y goes yn ol hyd y cwrlid.

Y mae hen bobl yn myned at angeu ; ond y mae angeu yn dyfod at bobl ieuainc.

Mae gan hwnw raff hir i dynu wrthi sydd yn dysgwyl am farwolaeth arall.

Mae yn Belgium un tafarndŷ am bob 44 o'r trigolion.

Darfu i'r Deon Swift unwaith gymharu rhywun â'r gwr drwg ; ac wedi hyny, darfu iddo fegian pardwn y gwr drwg am gymharu y fath adyn ag ef.

Yn ngolwg Tori, nil yw Gwyddel yn haeddu yr un driniaeth â Sais ; ac y mae dywedyd fod dyn yn Dori yn cyfiawnhau pob camwri.

Yr wyf yn myned i'r cwrdd ar y Suliau gwlybion, am fy mod yn dysgwyl y bydd fy ngweinidog yno. Byddai yn syn genyf pe arosai efe gartref o herwydd y gwlaw.

Fe ddywed y *Christian Herald*, yr hwn sydd yn caru chwareu'r proffwyd, fod rhyfel yn anocheladwy rhwng Germani a Ffrainc. Mae yn gallu dywedyd hyny ar sail Llyfr Daniel.

Yr heresi gwaethaf yw bywyd o anfoesoldeb.

Nid yw y diafol ddim bob amser yn sefyll wrth yr un drws.

Mae cariad fel peswch—nis gellir ei guddio.

Yr hwn sydd wresog ei hunan, a dybia fod pawb felly.

Mae y cadnaw yn troi i fod yn dduwiol cyn terfynu.

Wrth wario mae tolio.

Pob peth newydd dedwydd da.

Gwell bod yn ddall nâ gweled o chwith.

Cerwch eich cymmydog, ond peidiwch tynu eich clawdd i lawr.

Yn sicr, y mae ymddygiad rhai o'n dynion cyhoeddus heddyw tuag at eu gwrthwynebwyr politicaidd yn warth i ddynoliaeth, ac yn peru i ni synu sut y dichon dynion sydd wedi arfer cael parch ac anrhydedd ymddwyn mor wael. Nid oes neb yn fyw wedi gwneuthur cymmaint o wasanaeth i'n gwlad â Gladstone, ac fe'i trinir gan rai fel pe byddai yn *pick-pocket.*

Mae gohebydd yn ysgrifenu :—"Personally, I have no sympathy with the new-wine-in-old-bottles policy, which is rather prevalent among liberal orthodox." Nid ydym yn deall. Y sawl mae'r *cap* yn ffitio gwisged ef.

Dywedir fod Ymherodres Prwssia yn anrhegu pob un sydd yn cwblhau 40 mlynedd o wasanaeth dibaid yn yr un teulu â chroes aur a *diploma*, gydag arwydd-enw personol yr ymherawdwr ei hunan. Yn ystod yr wyth mlynedd diweddaf y mae 1156 o wasanaethyddion wedi derbyn y cyfryw anrhydedd.

Sonia ysgrifenydd yn yr *Homiletic Review*, am sel *boeth* Calfin. Pan gofiwn am berthynas Calfin a Serfed y mae y gair poeth yna yn ymddangos yn awgrymiadol, onid yw?

Yn marwolaeth Mr. J. Ceiriog Hughes, yr hwn a gymmerodd le Ebrill 23, yr ydym wedi colli un o feibion mwyaf athrylithfawr Cymru. Ganwyd ef 1832.

Mae *Times* mawr gwarthus Llundain wedi cyhoeddi llythyr dan enw Parnell yn cymmeradwyo llofruddiaeth. Mae Parnell wedi dywedyd yn gyhoeddus ac yn y modd mwyaf pendant na ddarfu iddo ef erioed ysgrifenu y llythyr, ac na weloedd efe erioed o hono nes ei weled yn y *Times*; ond ni waeth hyny na pheidio. Yr oedd y *Times* yn barnu y gallai y llythyr fod yn help i basio ail ddarlleniad y Mesur Gorthrwm sydd yn awr o flaen y Tŷ.

Pasiodd y gweinidogion gwyddfodol yn Nghwrdd y Pasc yn Aberdar, wrthdystiad unfrydol yn erbyn y Mesur Gorthrwm gwarthus sydd yn awr o flaen Tŷ y Cyffredin, ar gyfer pobl yr Iwerddon.

CEFNCOED.—Nos Iau, Mawrth 7fed, cynnaliwyd Cyngherdd ardderchog yn yr Hen-Dy-Cwrdd, pan y cafwyd dadganiad o'r *Service of Song*, "St. Paul," gan y cor, yn cael ei arwain gan Mr. D. Eiddil Jones. Pan ystyriom mai cor ieuanc yw hwn, wedi ei sefydlu tua thri mis yn ol gan Mr. Jones, mae yn glod mawr i'r arweinydd a'r cantorion eu bod wedi myned trwy eu gwaith mor ogoneddus. Barn unfrydol y sawl oeddent yn bresenol oedd, na chlywyd ddim gwell canu ac adrodd erioed gan rai mor ifainc. Rhwydd hynt iddynt yn eu gwaith i ddysgu rhywbeth etto. Llywyddwyd yn fedrus gan y Parch. N. R. Williams, Merthyr.

Mae yn dra thebygol fod crefydd yr Iesu wedi dyoddef mwy bob amser oddiwrth y rhai ydynt wedi ei chamddeall nag oddiwrth y rhai ydynt wedi ei gwrthwynebu.

Cofnodir yn y papyrau am Ysgol Sul yn Yorkshire, lle mae 400 o ysgolheigion, fod yr athrawon wedi bod yn bresenol am bump Sul o'r bron—heb un yn absenol nac yn ddiweddar. Mae Cymru yn enwog am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul, a charem y cyfleusdra o wneuthur cofnodiad cyffelyb i'r uchod.

Mae Cristnogaeth yn wastad wedi ymgyssylltu â gwybodaeth, sefydlu ysgolion, adeiladu colegau, ac ymdrechu am ryddid yr ysprydd.—*J. F. Clarke.*

BEDDARGRAFF ARWERTHWR.

Myn'd, yn myn'd, yn myn'd, a mi—wedi [myn'd,
Y mae'n awr y cyfri';
Gweddus i bawb yw gwaeddi—
Myn'd, *yn* myn'd; AR fyn'd 'rwyf fi.

Cefn-y-Meusydd. ELLIS OWEN.

Marwgofion.

Dydd Iau, Ionawr 6, Mary Thomas, Ffynnonlefrith, ger Cwrt Newydd, ar ol cystudd maith a chaled. Gadawodd fab a dwy ferch i alaru ar ei hol. Claddwyd ei gweddillion marwol y Llun canlynol yn mynwent Capelygroes. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, Allty-blaca.

Mawrth 22ain, yn saith wythnos oed, Catherine Cicely, anwyl blentyn Daniel ac Anne Jones, Rhyd-ddu, Llanwenog. Claddwyd ar y 24ain yn mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. "Ysprydyr Arglwydd a chwythodd arni."

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU.—E.G., Aberdar; W.E., Carmarthen; J.J., Quaker's Yard; D.E., Ystrad; T.J., Danyffynnon; Mrs. H., Gilfach Goch; D.H., Ciliau; T.D., Dolbwba; E.P., Glyncorrwg; T.Ll., Porthcawl; D.T., Ochryrhos; J.D., Caeronen; J.J., Llandyssul; T.H., Llwyn; Rev. J.W., Pantteg; W.L., Pontypridd; J.C., Cardiff; J.J., Cwmbargoed; H.G., Cwmavon; J.J., Llandilo; E.J., Aberdare; P.P., Blaentrafle.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

☞ POST-CARD SYMPOSIUM.

☞ Dymunwn alw sylw arbenig ein darllenwyr at y Symposium yn ein rhifyn presenol.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD YN NGHYMRU.

James Evans, Dowlais, 3s.

CAPEL CRIBIN, SIR ABERTEIFI.

Gan fod ein capel mewn angen dirfawr am ei adgyweirio, yr ydys wedi penderfynu adnewyddu y seddau, a gosod i fyny oriel newydd. Bydd y draul yn agos i £200, ac o'r swm hwn, bydd y gynnulleidfa, yr hon a wneir i fyny gan mwyaf o'r dosparth gweithiol, yn alluog i wneyd oddeutu £70. Yr ydym yn gwneyd yr appêl hon at gyfeillion yr achos Undodaidd yn Nghymru i'n cynnorthwyo i glirio y gweddill. Derbynir unrhyw gyfraniadau yn ddiolchgar, a chydnabyddir hwynt ar amlen YR YMOFYNYDD gan y Parch. D. Evans, Llanwnen, Llanybyther, R.S.O.

(Caiff rhestr o'r tanysgrifiadau a dderbyniwyd eisoes ymddangos yn YR YMOFYNYDD nesaf.)

YN AWR YN BAROD

"BANNAU FFYDD UNDODWR,"

Wedi ei gyfleithu gan y

PARCH. T. THOMAS, PANTDEFAID.

Anfoner *orders* oddiwrth Ysgolion Sul ac ereill yn ddioedi at y PARCH. W. JAMES, *Cerdin Villa, Llandyssul, S. Wales.*